cynllun Ysgolion Iach Gwynedd

Polisi Atal Camddefnyddio Sylweddau
Preventing Substance Misuse Policy

Ysgol Tryfan

Dyddiad Cymeradwyo/Date Adopted: ***Mawrth 2022***

Dyddiad Adolygu/Review Date: ***Mawrth 2025***

Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Dyddiad: **23.03.22**

1. Nodau ac amcanion y polisi

Nod ein hysgol yw:

- Darparu cwricwlwm camddefnyddio sylweddau eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, emosiynol a chorfforol bob disgybl ac yn eu paratoi ar gyfer y cyfleoedd, cyfrifoldebau a heriau bywyd fel oedolyn. Anelwn i fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau wrth alluogi disgyblion i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau
- Darparu dull safonol o reoli achosion sy'n ymwneud â sylweddau gydag ystyriaeth ofalus o'n goblygiadau; i amddiffyn lles yr ysgol gyfan a rhoi negeseuon priodol i staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion, gan sicrhau fod bob achos yn cael ei drin gyda chysondeb
- Darparu amgylchedd di-fwg diogel i bawb

2. Cysylltiadau i ganllawiau cenedlaethol a pholisïau ysgol eraill

Datblygwyd y polisi hwn trwy gyfeirio at y dogfennau canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau (2013)
- Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (2008)
- Rheoliadau Mangreoedd ayyb Di-fwg (Cymru) 2007
- Polisi CrimeBeat Ysgolion - Protocol ar gyfer Heddlu sy'n Cefnogi Ysgolion gyda Digwyddiadau ar gyfer Trosedd ac Anhrefn. Dogfen Gyfeirio ar gyfer Staff yr Ysgol (2012)
- Trefniadau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008)
- Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r polisi hwn yn cysylltu gyda pholisïau'r ysgol ganlynol:

- Ymddygiad Ysgol
- Gweinyddu Meddyginiaeth
- Gwrth-fwlio
- Iechyd a Diogelwch
- Asesiadau Risg
- Ymweliadau ysgol
- Diogelu plant
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)
- Cydraddoldeb
- Disgyblu Staff
- Defnyddio Grym Rhesymol ac Ymyriad Corfforol
- Polisi Atal Ysmygu Cyngor Gwynedd
- Polisi Alcohol a Chyffuriau (staff)

3. Diffiniadau a therminoleg

Y diffiniad safonol o gyffur neu sylwedd a ddefnyddir ar gyfer y polisi hwn yw - *'Sylwedd yw rhywbeth mae pobl yn ei gymryd i newid y ffordd maent yn teimlo, meddwl neu ymddwyn' (*Cenhedloedd Unedig). At bwrpas y polisi hwn mae hyn yn cynnwys ystod eang o sylweddau, cyfreithlon ac anghyfreithlon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tybaco gan gynnwys sigarennau electronig (Esigarét)
- Alcohol
- Diodydd egnïol
- Meddyginiaeth dros y cownter
- Meddyginiaeth presgripsiwn yn unig megis steroidau anabolic a benzodiazepines
- Sylweddau anghyfreithlon megis heroin, cocaine, anffetaminau, LSD, canabis, madarch hud
- Sylweddau anweddol megis aerosolau, bwtan, toddyddion a gludion
- Cyffuriau newydd a chyffuriau sy'n dod i'r amlwg (a elwir hefyd yn 'legal highs')

- Steroidau

O dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 mae'r canlynol yn droseddau:

- Meddiant o gyffur rheoledig yn anghyfreithlon
- Meddiant o gyffur rheoledig gyda bwriad i'w gyflenwi
- Cyflenwi neu gynnig cyflenwi cyffur rheoledig (hyd yn oed pan na chodi'r tâl am y cyffur)
- Caniatáu i adeiladau rydych yn eu meddiannu neu reoli i gael eu defnyddio yn anghyfreithlon i gynhyrchu neu gyflenwi cyffuriau rheoledig

4. Eithriadau i'r Polisi

Er nad oes lle i sylweddau yn ein hysgol, mae achosion ble gallai rhai sylweddau fod yn ein hysgol yn gyfreithlon:

- **Meddyginiaethau**: caniateir defnyddio meddyginiaethau presgripsiwn a dros y cownter wedi iddyn eu hawdurdodi trwy lythyr gan riant/gofalwr at ddefnydd y disgybl yn unig. Mae gennym bolisi gweinyddu meddyginiaeth. Os yw disgyblion yn cyflenwi cyffuriau presgripsiwn i eraill yn yr ysgol, maent yn gweithredu yn anghyfreithlon ac felly bydd y polisi hwn yn weithredol.
- **Sylweddau anweddol**: y rhai a ddefnyddir gan adrannau penodol yn ein hysgol at ddiben addysgu.
- **Alcohol**: i'n helpu i ddarparu negeseuon cyson ar gyfer ein pobl ifanc, ni fyddwn yn caniatáu alcohol ar safle'r ysgol heblaw am ar rai achlysuron bydd digwyddiadau yn yr ysgol yn cynnwys alcohol e.e. gwobr raffl digwyddiad Rhieni Athrawon neu noson caws a gwin. Mewn pob achlysur bydd yr ysgol yn cysylltu â'r Adran Drwydded, Cyngor Gwynedd i holi os bydd angen trwydded.

5. Rhesymeg

Mae camddefnyddio sylweddau sy'n cynnwys tybaco, alcohol, diodydd egnïol a chyffuriau cyfreithlon/ anghyfreithlon yn peri pryder iechyd cyhoeddus sylweddol yng Nghymru mewn perthynas â chanlyniadau iechyd a gellir cysylltu'r olaf ag ymddygiad troseddol. Rydym yn cydnabod gall rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau o ansawdd da yn seiliedig ar sgiliau, sy'n briodol i oedran, helpu disgyblion i wneud penderfyniadau cyfrifol a chall am sylweddau a ddefnyddir a/ neu y camddefnyddir yn y gymdeithas. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb ar gyfer diogelwch ein cymuned ysgol a phwysigrwydd cael dull cyson ar gyfer ymdrin ag achosion o gamddefnyddio sylweddau. Rydym yn cymryd rhan yng Nghynllun Ysgolion Iach Gwynedd ac yn cydnabod gwerth cymryd ymagwedd ysgol gyfan at y mater hwn, sy'n cynnwys arweinyddiaeth, y cwricwlwm, amgylchedd yr ysgol, ethos a chysylltiadau cymunedol.

6. Cyfrifoldebau allweddol

Er mwyn cydymffurfio â'r polisi hwn, bydd y Pennaeth a'r aelod staff arweiniol ar gyfer sylweddau yn gyfrifol am:

- Cadw trosolwg o lunio ac adolygu'r polisi hwn a sicrhau bod y llywodraethwyr, staff, rhieni/gofalwyr a'r disgyblion yn ei ddeall
- Cynnal gwyliadwriaeth dros adeiladau a thir yr ysgol trwy'r timau dyletswydd yn gweithredu hyd eithaf eu gallu
- Sefydlu systemau i oruchwylio a chydlynu digwyddiadau camddefnyddio sylweddau
- Cadw cofnod o bob achos o gamddefnyddio sylweddau
- Dilyn unrhyw gyngor gan y (SHCY) ac ymgynghori'n agos gyda hwy i sicrhau fod ein polisi yn gytûn ar gyfer ymdrin ag achosion o gamddefnyddio sylweddau anghyfreithlon a allai godi

Bydd yr aelod staff arweiniol ar gyfer sylweddau a'r Cydlynydd ABCh yn gyfrifol am:

- Llunio'r rhaglen astudio a thrafod gyda chydweithwyr i sicrhau darpariaeth ar draws yr ysgol
- Ymdrin ag anghenion datblygiad proffesiynol staff sy'n cyflwyno'r rhaglen
- Trafod gydag asiantaethau allanol a chydlynu eu cefnogaeth gyda'r rhaglen addysgu camddefnyddio sylweddau
- Monitro ac arfarnu'r rhaglen astudio a'r adnoddau a ddefnyddir
- Ymgynghori gyda disgyblion ynglŷn â'r anghenion dysgu

- Trafod gyda'r arweinwyr gwyddoniaeth i sicrhau fod yr holl ofynion statudol yn cael eu cyflwyno

7. Ble mae'r polisi yn berthnasol?

Ni chaniateir defnyddio sylweddau (gan gynnwys tybaco ac alcohol) mewn unrhyw ran o'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys y ceginau, derbynfa, ystafell staff, tiroedd yr ysgol (e.e. maes parcio, gerddi, caeau etc) pan fyddant yn ffurfio rhan o dir yr ysgol, cludiant ysgol a theithiau ysgol.

7.1 Adeiladau a thiroedd yr ysgol

- Ni chaniateir ysmygu gan gynnwys 'E sigaréts' o fewn yr ysgol neu diroedd yr ysgol neu unrhyw le arall tu allan i'r ysgol sy'n agos, ble gall mwg effeithio ar eraill neu bortreadu delwedd negyddol o Gyngor Gwynedd / ysgol
- Bydd arwyddion dim ysmygu sy'n cydymffurfio efo'r Rheoliadau Mangreoedd ayyb Di-fwg (Cymru) 2007 yn cael eu harddangos mewn lle amlwg yn ymyl neu ym mhob mynedfa i adeilad yr ysgol
- Defnyddir arwyddion eraill mewn rhannau eraill o'r ysgol a'r tiroedd (e.e. yn ymyl gatiau'r ysgol, o amgylch tiroedd yr ysgol) i atgoffa pawb ein bod yn ysgol ddi-fwg

7.2 Ysmygu a cherbydau

- Ni chaniateir ysmygu gan gynnwys 'E sigaréts' mewn unrhyw gerbyd ysgol nac mewn unrhyw gerbyd masnachol sy'n cludo disgyblion ar deithiau/ ymweliadau ysgol yn unol â Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc (Cymru) 2007
- Gofynnir i'n staff i ymatal rhag ysmygu yn eu cerbydau eu hunain, wrth gludo teithwyr ar ran yr ysgol
- Bydd rhieni/gofalwyr sy'n cludo disgyblion i ac o ddigwyddiadau ysgol yn cael eu hatgoffa o bolisi'r ysgol a gofynnir iddynt gydymffurfio
- Bydd arwydd dim ysmygu sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Mangreoedd Di-Fwg etc (Cymru) 2007 yn cael ei arddangos yn holl gerbydau'r ysgol mewn lle amlwg

8. Pryd mae'r polisi hwn yn berthnasol?

Mae'r gweithdrefnau ac ymarferion y polisi hwn yn berthnasol:

- Ar dir ac eiddo'r ysgol BOB AMSER
- Gweithgareddau allgyrsiol ar ac oddi ar safle'r ysgol
- Cyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n cael eu mynychu gan weithwyr yr ysgol neu ddisgyblion fel rhan o'u gwaith a/neu rieni/gofalwyr ac ymwelwyr i gyfarfod/digwyddiadau o'r fath. Er enghraifft, diwrnod chwaraeon, ffeiriau ysgol, nosweithiau rhieni ac ati
- Ymweliadau addysgol ysgolion gan gynnwys gemau chwaraeon i ffwrdd, darpariaeth oddi ar y safle a phrofiad gwaith
- Cludiant ysgol
- Bydd y daith i ac o'r ysgol ac ymddygiad yn yr ardal gyfagos i'r ysgol yn fater o farn ar gyfer y pennaeth (gweler Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion 081/2012, Llywodraeth Cymru, 2012).

9. I bwy mae'r polisi'n berthnasol?

Mae'r polisi'n berthnasol i holl staff yr ysgol - parhaol, dros dro, llawn amser neu ran amser a staff llanw; athrawon peripatetig; staff cefnogi; staff y ffreutur; gofalwyr a glanhawyr; staff gweinyddol; myfyrwyr ar leoliad; contractwyr; rhieni/gofalwyr; ymwelwyr; asiantaethau allanol; aelodau pwyllgorau fel y llywodraethwyr, cymdeithas rieni, aelodau o'r cyhoedd; gwirfoddolwyr; a'r holl ddisgyblion sy'n defnyddio safle'r ysgol neu ei cherbydau.

10. Hyrwyddo'r polisi

Bydd agweddau o'r polisi hwn yn cael ei gynnwys yn y canlynol:

- Prosbectws yr ysgol
- Gwefan yr Ysgol
- Llawlyfr a dyddiaduron Staff

- Llawlyfr Llywodraethwr
- Dyddiaduron Disgyblion
- Mae fersiwn disgyblion wedi ei drafod a'i gymeradwyo gan ein cyngor ysgol
- Bydd cyfeirio at gynnwys y polisi yn ystod gwersi Atal Camddefnyddio Sylweddau
- Gofynnir i asiantau allanol sy'n cefnogi addysg camddefnyddio sylweddau weithredu o fewn y polisi hwn
- Bydd copïau llawn o'r polisi ar gael ar gais

11. Addysgu Atal Camddefnyddio Sylweddau

Nod ein haddysg camddefnyddio sylweddau yw grymuso disgyblion i wneud penderfyniadau cyfrifol, addas am sylweddau a ddefnyddir a/neu a gamddefnyddir mewn cymdeithas. Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas amrywiol ac mae disgyblion yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd teuluol. Bydd ein rhaglen yn anfeirniadol heb ystrydebu a stigma. Ni ddylid credoau ac agweddau personol staff neu asiantau allanol yn dylanwadu ar ein rhaglenni addysg. Mae'r rhaglen ar gyfer bob blwyddyn ysgol wedi ei gosod ar y map cwricwlwm sydd ynghlwm. Mae cynlluniau manylach ar gael yng nghynlluniauCyfnod Allweddol 3, 4 ac ôl 16, Rhaglen Gwyddoniaeth ac ABCh. Gweler Atodiad 1

11.1 Adnoddau a chefnogaeth asiantaethau/mentrau allanol

O dro i dro byddwn yn gweithio gyda mentrau priodol i gyfrannu at agweddau penodol o'r rhaglen. Gofynnir iddynt ddarparu eu cyflwyniad/gwers o fewn cynnwys y polisi hwn. **Pan fydd asiantaeth allanol yn cyflwyno i'r disgyblion bydd aelod o staff yn bresennol drwy gydol y cyflwyniad/gwers**

11.2 Datblygiad proffesiynol parhaus

- Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y staff wedi derbyn hyfforddiant priodol
- Pan fydd asiantaethau allanol yn cyflwyno, bydd staff yr ysgol yn bresennol drwy gydol y wers
- Bydd arfer dda yn cael ei rannu trwy arsylwi gwersi dosbarth, Cymunedau Dysgu Proffesiynol a thrafodaethau mewn cyfarfodydd staff

11.3 Addysg rhieni

- Byddwn yn cynnal digwyddiadau addysg i rieni pan fo angen (er enghraifft o ganlyniad i ddigwyddiadau neu adolygu'r polisi)

12. Rheoli achosion o gamddefnyddio sylweddau

12.1 Math o achosion

Gall achosion ddigwydd yn annisgwyl felly mae gennym ganllawiau manwl i gefnogi staff i gymryd y camau priodol. Gall achosion o gamddefnyddio sylweddau ymwneud â disgyblion, aelodau o staff, rhieni/gofalwyr neu oedolion eraill. Gallai'r math o achos gynnwys: darganfod cyffuriau neu offer cyffuriau ar y safle; amheuaeth neu honiad ynghylch gweithgareddau unigolyn; datguddiad am gamddefnyddio sylweddau ar y safle/gweithgaredd ysgol; defnydd neu arwyddion a symptomau o gamddefnyddio sylweddau; gwerthu neu ddelio sylweddau neu feddiant o sylweddau. Bydd bob achos yn cael ei drin yn ddifrifol a hysbysir y Pennaeth. Os ymddengys fod unrhyw un yn sâl neu'n anniogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau, bydd trefniadau cymorth cyntaf yn cael eu dilyn. Os amheuir fod disgybl wedi dioddef, neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, bydd trefniadau diogelu yn cael eu dilyn. Pan fo gweithgarwch troseddol yn cael ei ddatgelu neu ei amau byddwn yn hysbysu'r SCHY ynglŷn â'r mater. Am ganllawiau manylach gweler Atodiad 2 **Siart Llif Rheoli Camddefnyddio Sylweddau**

12.2 Gweithdrefnau ar gyfer rheoli digwyddiad sy'n ymwneud â disgyblion (atodiad 1)

Bydd staff sy'n dod yn ymwybodol o anawsterau a/neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud â disgyblion a sylweddau yn hysbysu'r pennaeth neu'r person arweiniol ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Bydd yr ymateb yn dibynnu ar fath a maint y risg, gyda rhai sefyllfaoedd sy'n gofyn am weithredu ar unwaith ac eraill angen amser ar gyfer asesu gwybodaeth, cael cyngor a chynnwys asiantaethau eraill. Mae diogelwch a diogeled y disgyblion yn flaenoriaeth ym mhob achos. Bydd rhieni/ gofalwyr yn cael gwybod oni bai bo pryderon

diogelu. Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a sut i'w rheoli yn cael eu hamlinellu yn y Siart Llif Rheoli Camddefnyddio Sylweddau.

12.2.1 Gweithdrefn ar gyfer delio gyda disgybl ar ôl digwyddiad

Mae cyffuriau ac alcohol yn effeithio ar ymddygiad. Ni fydd y ffaith bod cyffuriau neu alcohol wedi achosi disgybl i ymddwyn yn amhriodol yn cael ei weld fel ffactor lliniarol - bydd yr ymddygiad yn cael ei drin gan ddefnyddio ein Polisi Ymddygiad.

Nid ein rôl ni yw darparu gofal meddygol i'r rhai o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. Os yw disgybl mewn perygl oherwydd nam ar eu cyflwr meddyliol, byddwn yn cysylltu â'r rhieni/ gofalwyr a gofyn iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu plentyn. Pe bai hynny'n methu, gofynnir i gyswllt brys priodol gynorthwyo. Fel arall, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r SCHY os yn briodol yn cael eu galw i gael cyngor .

Ni fydd disgybl yn cael cerdded, beicio neu ddal y bws adref os oes pryder am nam meddyliol o ganlyniad i unrhyw sylwedd. Os oes angen, bydd grym rhesymol yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r polisi Defnyddio Grym Rhesymol ac Ymyriad Corfforol.

Ein prif nod yw amddiffyn diogelwch a lles y disgybl ac atal digwyddiadau pellach. Mae gennym set o sancsiynau a lefelau o gefnogaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer disgyblion sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau camddefnyddio sylweddau a byddwn yn gweithio'n agos gyda rhieni/gofalwyr, cydweithwyr yn yr ysgol ac asiantaethau partner megis y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc a'r Heddlu i ddarparu cefnogaeth briodol. Gweler y Siart Llif Rheoli Camddefnyddio Sylweddau.

12.3 Trefn ar gyfer ymdrin ag oedolion (nid staff)

Pan amheuir fod rhiant/gofalwr neu ymwelydd â'r ysgol o dan ddylanwad sylwedd ar dir yr ysgol gofynnir iddynt adael yn syth. Bydd diogelwch y rhiant/gofalwr neu'r ymwelydd yn cael ei sicrhau, gyda goruchwyliaeth pe bai angen. Mewn achosion ble rydym yn amau camddefnyddio sylweddau (meddiant, defnydd, cyflenwi) byddwn yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac os bydd sylweddau anghyfreithlon, hysbysu'r SCHY. Os yw oedolyn yn ysmygu neu ddefnyddio ESigarét ar safle'r ysgol gofynnir iddynt ddiffodd y sigarét neu adael y safle.

Pan amheuir fod rhieni/gofalwyr sy'n cyrraedd yr ysgol i gasglu disgyblion yn feddw neu'n ymddangos fel petaent o dan ddylanwad sylwedd, ni fydd y disgybl yn cael ei ryddhau i'w gofal (yn enwedig os ydynt yn gyrru). Byddwn yn ceisio trefnu i gyswllt arall a enwyd i ddod i gasglu'r disgybl. Fodd bynnag, os yw'r rhiant/gofalwr yn mynd yn ymosodol byddwn yn ffonio 999. Mae hyn yn unol â'n Polisi Diogelu.

12.4 Trefn ar gyfer ymdrin â staff

Nid yw'r ysgol yn barod i oddef defnydd o alcohol na sylweddau eraill, nac ychwaith meddiant neu gyflenwi cyffuriau anghyfreithiol. Rhoddir arweiniad clir ar faterion yn ymwneud â chamddefnydd sylweddau gan staff yr ysgol ym Mholisi Alcohol a Chyffuriau (staff) yr ysgol. Dylid gweithredu yn unol â'r polisi hwnnw os oes unrhyw amheuaeth am aelod o staff yn camddefnyddio sylweddau.

12.5 Cynnwys yr heddlu.

Ar gyfer POB digwyddiad o gamddefnyddio sylweddau bydd yr ysgol yn ymgynghori a'r SCHY.

Os yw'r sefyllfa yn argyfwng neu os nad yw'r SCHY ar gael yna bydd galwad 999 yn cael ei wneud er mwyn cael ymateb cyflym. Er enghraifft, os yw unrhyw un yn sâl neu'n anniogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylwedd (e.e. gorddos, camddefnyddio toddydd), byddwn yn dilyn gweithdrefnau cymorth cyntaf a galw 999 pe bo angen. NEU er enghraifft os yw rhiant/gofalwr ar fin gyrru eu plentyn yn ôl i'r cartref a thybiwn nad ydynt yn addas i wneud hynny oherwydd meddwdod neu os yw digwyddiad yn cynnwys cyffuriau anghyfreithlon.

I gael manylion pellach ynglŷn â rhan y SCHY / Heddlu gweler *Polisi Trosedd Ysgol – Protocol ar gyfer yr Heddlu sy'n cefnogi ysgolion gyda digwyddiadau o Drosedd ac Anrhefn. Dogfen gyfeiriol ar gyfer Staff Ysgol (2012).* *http://www.schoolbeat.org/fileadmin/docs_english/schoolbeat_policy/School%20Beat%20Crime%20Policy%20%282013-04-15%29%20EN.pdf*

12.6 Trefn ar gyfer darganfod cyffuriau neu daclau cyffuriau ar dir yr ysgol

Pan ddarganfyddir neu cesglir sylwedd posib o fewn ffiniau'r ysgol, NEU os yw aelod o staff yn dymuno atafaelu sylwedd, byddwn yn dilyn *Polisi CrimeBeat Ysgolion yr Heddlu:*

- Hysbysu'r Pennaeth
- Os yw rhywun mewn gwir berygl neu'n debygol o fod mewn risg o niwed byddwn yn ffonio 999
- Cymryd ymaith y sylwedd a'i roi mewn bag
- Ar gyfer cyffuriau cyfreithlon neu anghyfreithlon a amheuir byddwn yn cysylltu â'r SHCY ar gyfer cael gwared arno a chael cyngor am sut i weithredu yn y dyfodol. Os na fydd y SHCY ar gael - cysylltir â'r orsaf heddlu lleol cyn gynted ag y bo modd. Eglurwch y sefyllfa a gofynnwch am rif digwyddiad - bydd hyn yn cael ei wneud yn ddi-oed.
- Byddwn yn sicrhau bod tyst i'r atafaelu gydag aelod arall o'r staff:
  - Alcohol - gellir ei arllwys ymaith a chael gwared ar y cynhwysydd (hysbysu rhieni/gofalwyr - efallai y byddant yn dymuno casglu'r eitem).
  - Tybaco - gellir ei ddinistrio a'i daflu (hysbysu rhieni/gofalwyr - efallai y byddant yn dymuno casglu'r eitem).
  - E-sigaréts - gellir eu dinistrio a'u taflu (hysbysu rhieni/gofalwyr - efallai y byddant yn dymuno casglu'r eitem).
  - Cyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau newydd sy'n dod i'r amlwg, sylweddau anweddol - byddwn yn storio'r sylwedd mewn lleoliad addas ym mhresenoldeb tyst tra'n aros i'r heddlu gyrraedd.
- Bydd y ffurflen adrodd am ddigwyddiadau yn cael ei llenwi, gan egluro sut cafwyd gwared ar y sylwedd, a bydd yn cynnwys llofnodion tystion, gan gynnwys llofnod yr heddlu os oedd sylwedd anghyfreithlon wedi'i ganfod
- Ni fydd staff yn ceisio dadansoddi neu flasu unrhyw sylwedd anhysbys o dan unrhyw amgylchiadau

Os deuir o hyd i nodwyddau, chwistrellau neu daclau cyffuriau ar dir ein hysgol:

- Hysbysu'r Pennaeth
- Rhoddir y taclau mewn bocs nwyddau miniog, gan ddefnyddio menig a gefel 'tweezers'
- Cysylltir â'r gwasanaethau amgylcheddol i wagio'r bocs
- Hysbysir y SHCY
- Bydd ffurflen ddigwyddiad yn cael ei llenwi
- Trefnir addysg camddefnydd sylweddau a materion diogelwch i'r disgyblion

12.7 Digwyddiadau sylweddau sy'n digwydd tu allan i oriau'r ysgol / neu yn y gymuned leol

Nid oes gan yr ysgol unrhyw swyddogaeth wrth ymdrin ag achosion o gamddefnyddio sylweddau y tu allan i oriau a thir yr ysgol heblaw:

- Ar dripiau ac ymweliadau ysgol, pan fydd yr un rheolau a threfniadau yn berthnasol cyn belled ag sy'n rhesymol ac ymarferol
- Trwy roi gwybodaeth i asiantau perthnasol pan fo diogelwch neu les disgybl yn cael ei fygwth
- Cynorthwyo'r heddlu i atal y defnydd o dir o amgylch yr ysgol ar gyfer masnachu cyffuriau
- Pan fo camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys alcohol) gan oedolion yn effeithio ar ddiogelwch disgybl
- Os yw achosion yn digwydd yn y gymuned leol byddwn yn gwneud gwaith ychwanegol gydag asiantau allanol priodol i atgyfnerthu negeseuon allweddol

12.8 Chwilio

- Ni all staff ysgol archwilio disgyblion neu oedolion yn bersonol, eu dillad na'u heiddo personol heb ganiatâd hyd yn oed os ydynt yn amau eu bod yn meddu ar sylwedd neu eitem waharddedig
- Gall staff chwilio eiddo'r ysgol e.e. desgiau, loceri, er y dylid gofyn am ganiatâd o flaen llaw. Gellir chwilio hyd yn oed os gwrthodir caniatâd
- Gall staff ofyn i rywun droi eu pocedi allan, gwagu bagiau etc. Os yw ymdrechion i berswadio rhywun a amheuir o gamddefnyddio sylweddau i gydymffurfio â'r cais hwn yn methu, yna gall yr ysgol wneud un neu ddau o'r canlynol: yn achos disgybl, cysylltu â'r rhieni/gofalwyr a gofyn iddynt ddod i'r ysgol a chwilio'r disgybl a'i eiddo; NEU symud ymlaen yn ffurfiol a chysylltu â'r SCHY
- Ni all staff gadw disgybl neu oedolyn heb eu caniatâd er mwyn eu chwilio
- Bydd angen i ysgolion gydbwyso'r tebygolrwydd fod trosedd wedi ei chyflawni yn erbyn y risg o dorri preifatrwydd yr unigolyn heb achos cyfiawn

12.8.1 Cyswllt gyda rhieni/gofalwyr

Bydd ymgais resymol i gysylltu â rhieni/gofalwyr i'w hysbysu y bydd eu plentyn yn cael eu chwilio. Nid oes gan rieni'r hawl i atal chwilio nag i'w oedi yn ormodol. Mae'r heddlu yn gyfyngedig iawn yn eu pwerau i gadw rhywun cyn chwilio. Os gellir cysylltu â rhieni/gofalwyr a'u bod yn gallu mynd i safle'r ysgol, byddant yn cael eu cymryd i'r ystafell ble bydd y chwilio yn digwydd. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael gwybod am unrhyw achos o gamddefnyddio sylweddau oni bai:

- Fod pryderon ynghylch diogelu
- Y byddai'n amharu ar ymchwiliad ysgol
- Y byddai'n amharu ar ymchwiliad yr heddlu
- Y gallai olygu mwy o niwed i'r disgybl am reswm arall.

Fel arfer cysylltir â rhieni/gofalwyr yn uniongyrchol ar y ffôn os bydd achos o gamddefnyddio sylweddau. Os yw'n cael ei amau ac nid ei brofi, bydd y protocol heddlu a gytunwyd yn cael ei weithredu.

12.8.2 Cyswllt gyda'r heddlu

Pan fo gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r heddlu, gofynnir am chwiliad a phwysleisir lle bynnag y bo'n bosibl mai'r SHCY (neu swyddogion eraill fel rhai mewn dillad plaen neu swyddogion amddiffyn teulu) sydd eu hangen. Dim ond fel dewis olaf, neu os oes angen cynnal chwiliad yn gyflym, y bydd swyddogion mewn lifrai yn mynychu'r ysgol.

Ar gyrraedd, bydd swyddogion yn cael eu briffio ynglŷn â natur yr honiad a hyder yn y ffynhonnell wybodaeth. Byddant yn cael eu hebrwng i'r ystafell lle bydd y chwiliad yn digwydd, os yw'r disgybl eisoes yn cael ei gadw yno.

Pan nad yw'r rhieni/ gofalwyr yn bresennol, bydd aelod o staff yr ysgol (staff dysgu neu nad ydynt yn dysgu) yn bresennol trwy gydol y chwiliad (bydd angen i'r ysgol gwblhau asesiad risg). Er y caniateir rhai cwestiynau yn gysylltiedig â'r chwiliad, ni chaniateir unrhyw gyfweliad ffurfiol oni bai bod y rhieni/ gofalwyr yn bresennol. Mae'n annhebygol iawn y bydd cyfweliad o'r fath yn digwydd ar dir yr ysgol.

Dylai staff fod yn wyliadwrus o unrhyw ymgais gan y disgybl i ddianc er mwyn cael gwared ar unrhyw gyffuriau, neu geisio pasio'r cyffuriau i unrhyw ddisgybl arall naill ai yn y dosbarth neu ar y ffordd i'r chwiliad.

12.9 Cyfweld ac ymchwiliadau

Cynhelir ymchwiliadau pellach ar ôl y digwyddiad; ac os yw'n briodol cynhelir cyfweliadau i sefydlu'r ffeithiau, lefel yr ymwneud ac a oedd eraill yn rhan. Efallai hefyd y bydd angen trefnu cyfweliadau gyda staff, disgyblion eraill i sefydlu'r ffeithiau ymhellach a chael cadarnhad. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael gweld eu plentyn gydag aelod o staff yn bresennol bob amser. Gall Swyddog Heddlu Cyswllt Ysgolion ymwneud mewn

partneriaeth neu ymchwiliadau'r heddlu pan fo sylweddau anghyfreithlon posib dan sylw. Os bydd angen cael yr heddlu yno gwneir bob ymdrech i gael rhiant/gofalwr yn bresennol.

12.10 Cyswllt gyda'r cyfryngau

Ni fydd staff yn dweud wrth y wasg leol a'r cyfryngau ynglŷn â digwyddiadau a/neu faterion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn torri cyfrinachedd a gallai arwain at gamau disgyblaethol. Bydd y Pennaeth, mewn ymgynghoriad gyda swyddfa'r wasg y Cyngor a'r llywodraethwyr yn ymdrin yn bersonol gyda bob mater sy'n ymwneud â'r cyfryngau. Bydd bob mater sy'n ymwneud â'r cyfryngau yn cael eu cyfeirio at swyddfa wasg y Cyngor.

12.11 Rhannu gwybodaeth

Os bydd gan staff unrhyw wybodaeth mewn perthynas â sylweddau anghyfreithlon neu ffug neu wybodaeth sy'n ymwneud a defnyddio unrhyw sylweddau neu ddelio sylweddau yn y gymuned, yna byddant yn adrodd hyn i'r heddlu neu'r safonau masnach yn unol â hynny.

12.12 Cofnodi digwyddiadau

Cedwir cofnodion o BOB achos o gamddefnyddio sylweddau a rhai cysylltiedig.

13. Cyfrinachedd a Diogelu

Efallai y bydd angen dilyn trefniadau diogelu os yw diogelwch neu les disgybl (neu ddisgybl arall) o dan fygythiad. **Rhoddir dyletswydd ar y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud i gyfnewid gwybodaeth er mwyn diogelu "plentyn" i ddilyn Trefniadau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.**

Addysg Camddefnyddio Sylweddau:

- Os yw athro yn clywed neu yn gweld rhywbeth yn ystod gwersi sy'n awgrymu fod disgybl mewn risg o niwed difrifol neu achosi niwed difrifol i eraill byddant yn dweud wrth y Pennaeth/cydlynydd diogelu
- Bydd defnyddio rheolau a gytunwyd mewn dosbarthiadau yn creu ffiniau clir, anogir disgyblion i beidio â rhannu gwybodaeth bersonol yn y dosbarth a sicrhau fod pawb yn teimlo yn ddiogel ac wedi eu parchu
- Bydd athrawon yn annog disgyblion i roi eu cwestiynau mewn blwch cwestiynau a fydd yn rhoi 'amser meddwl' i staff cyn ateb
- Os yw cwestiynau o natur bersonol neu os gofynnir cwestiynau penodol am e.e. gyffuriau anghyfreithlon anogir disgyblion i siarad gyda'u rhieni/gofalwyr a/neu asiantau cefnogi priodol
- Os yw athro yn clywed neu yn gweld rhywbeth yn ystod gwersi sy'n awgrymu fod gan ddisgybl wybodaeth am weithgareddau sy'n torri'r gyfraith byddwn yn cysylltu â'r Pennaeth a'r SCHY.

14. Trefn cwyno

Dylai unrhyw gwynion am achosion neu addysg camddefnyddio sylweddau gael eu gwneud i'r Pennaeth.

15. Monitro ac arfarnu

- Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob 3 mlynedd neu'n amlach os yw'n briodol. Mae hyn yn unol â'n cynllun gwella ysgol.
- Mae'r cydlynydd ABCh a'r cydlynydd Gwyddoniaeth yn gyfrifol am adolygu addysg camddefnyddio sylweddau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y rhaglenni addysgu yn ymatebol i anghenion disgyblion a bod amgylchedd dysgu cefnogol yn cael ei ddarparu ar gyfer pawb.
- Mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am fonitro digwyddiadau ac adolygu trefniadau rheoli digwyddiadau.
- Bydd y Pennaeth yn sicrhau fod y canfyddiadau o arfarniadau staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion yn cyfrannu at broses hunan arfarnu ein hysgol ac at y broses adolygu polisïau.

Atodiad 1

CA3 Addysg Camddefnyddio Sylweddau ABCh:							
Enghreifftiau o weithgareddau	**Sgiliau**	**Datblygu Meddwl**	**Datblygu Cyfathrebu**	**Datblygu TGCh**	**Datblygu Rhif**	**Gweithio gyda phobl eraill**	**Gwella hunan ddysgu**
• Addysg cyfoedion • Cefnogaeth asiantaethau allanol e.e. Swyddogion Cyswllt Ysgolion yr Heddlu • Bwrdd hysbysebion cymunedol • Polisi atal cyffuriau • Gweithgareddau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol Curriculum • Theatr mewn Addysg • Clinig galw- mewn • Diwrnod codi ymwybyddiaeth • Hyfforddiant Cymorth Cyntaf		***Dylai rhoi cyfle i'r dysgwyr:***					
		◊ defnyddio peth wybodaeth flaenorol i esbonio cysylltiadau rhwng achos ac effaith ◊ adnabod ac asesu tuedd a dibynadwyedd e.e. gwerthuso negeseuon gan y cyfryngau ◊ ystyried safbwynt pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol ◊ defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer myfyrdod personol	◊ gwrando'n astud mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol ◊ cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol ◊ mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol ◊ cymryd rhan mewn dadleuon a phleidleisio ar faterion	◊ dod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu ◊ creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	◊ cael mynediad i ddata a dethol data o wybodaeth berthnasol a gyflwynwyd mewn amrywiol ac o ffynonellau gwahanol er mwyn cefnogi'u dealltwriaeth o faterion cysylltiedig yn ymwneud ag ABCh	◊ bod yn bendant ac ymwrthod a phwysau diangen gan gyfoedion ◊ uniaethu â phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill ◊ datblygu a defnyddio amrywiaeth o strategaethau i reoli dicter a datrys gwrthdaro ◊ ymaddasu i sefyllfaoedd newydd ◊ cael mynediad i ystod briodol o ffynonellau er mwyn cael cymorth, cefnogaeth a chyngor	◊ cymhwyso'u dysg i sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol ◊ datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd e.e. cymorth cyntaf sylfaenol

	Ystod	Dinasyddiaeth weithgar	Iechyd a lles emosiynol	Datblygiad moesol ac ysbrydol	Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes	Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
		Dylai rhoi cyfle i'r dysgwyr:				
		◊ datblygu parch atynt hwy eu hunain ac at eraill	◊ dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach ◊ datblygu agweddau cadarnhaol tuag atynt eu hunain ac at bobl eraill	◊ datblygu dealltwriaeth o'u gwerthoedd ◊ dangos sensitifrwydd i werthoedd pobl eraill	◊ cymryd cyfrifoldeb personol am weithrediadau a phenderfyniadau sy'n gysylltiedig â dysgu	◊ gwerthfawrogi bod gweithredoedd a phersbectif pobl yn cael eu dylanwadu gan eu gwerthoedd
		A deall y canlynol:				
		◊ eu cyfrifoldebau fel dinasyddion ifanc yng Nghymru ◊ agweddau allweddol ar y system cyfiawnder troseddol a'r modd y meant yn berthnasol i bobl ifanc	◊ effeithiau a'r peryglon sy'n codi wrth ddefnyddio amrywiaeth o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r cyfreithiau sy'n rheoli eu defnydd ◊ sut i ddefnyddio alcohol mewn modd cyfrifol a pheryglon goryfed mewn pyliau ◊ nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth ◊ ystod o emosiynau y meant yn eu profi a sut i ddatblygu strategaethau ar gyfer ymdopi â theimladau negyddol ◊ buddiannau cyrchu gwahanol ffynonellau gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor	◊ y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd		◊ sut y gall safbwyntiau gwahanol ar faterion byd-eang esgor ar wrthdaro, a bod yn ymwybodol o rôl grwpiau pwyso

CA4: Addysg Camddefnyddio Sylweddau							
Enghreifftiau o weithgareddau	Sgiliau	**Datblygu Meddwl**	**Datblygu Cyfathrebu**	**Datblygu TGCh**	**Datblygu Rhif**	**Gweithio gyda phobl eraill**	**Gwella hunan ddysgu**
• Polisi Camddefnyddio Sylweddau • Trafodaethau Cyngor Ysgol • Addysg cyfoedion • Cefnogaeth gan asiantaethau allanol • Taflen newyddion yr ysgol • Bwrdd hysbysebion cymunedol • Gweithgareddau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol • Theatr Mewn Addysg • Gweithgareddau Nyrs Ysgol / Swyddog Cyswllt yr Heddlu / Gweithiwr Ieuenctid • Clinig galw- mewn • Diwrnod Cenedlaethol Dim Ysmygu • Hyfforddiant Cymorth Cyntaf		***Dylai dysgwyr gael cyfle i wneud y canlynol:***					
		◊ defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio cysylltiadau rhwng achos ac effaith, a gwneud rhagfynegiadau ◊ dadansoddi gwybodaeth a syniadau er mwyn asesu tuedd, dibynadwyedd a dilysrwydd ◊ ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau deallus yn effeithiol ◊ defnyddio amrywiaeth o dechnegau ar gyfer myfyrdod personol	◊ gwrando'n graff mewn ystod o sefyllfaoedd, ac ymateb yn briodol ◊ cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn effeithiol mewn ystod o sefyllfaoedd gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol ◊ gwerthfawrogi, safbwyntiau eraill, myfyrio yn eu cylch, a'u gwerthuso'n feirniadol	◊ dod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu ◊ creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	◊ cael mynediad i ddata rhifol o ffynonellau ysgrifenedig a graffigol ◊ dewis o blith amrywiaeth o ddulliau cyflwyno data gan gynnwys siartiau cylch, graffiau gwasgariad a graffiau llinell, a dehongli'r amrywiaeth honno o ddulliau er mwyn cefnogi'u dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ABCh	◊ ffurfio a chynnal cyfeillgarwch, a thrafod ymddygiad yn effeithiol mewn cydberthnasau ◊ bod yn bendant ac ymwrthod a dylanwad diangen gan gyfoedion a phobl eraill ◊ rheoli dicter, rhwystredigaeth a theimladau ymosodol yn effeithiol ◊ ymaddasu i sefyllfaoedd newidiol ◊ gwerthuso ystod o ffynonellau gwybodaeth, cymorth a chyngor a geir ar lefel leol a chael mynediad iddynt yn hyderus	◊ cymhwyso dysg i sefyllfaoedd anghyfarwydd neu sefyllfaoedd mwy haniaethol ◊ adnabod a rheoli straen ◊ datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd

	Ystod	**Dinasyddiaeth weithgar**	**Iechyd a lles emosiynol**	**Datblygiad moesol ac ysbrydol**	**Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes**	**Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang**
		Dylai rhoi cyfle i'r dysgwyr:				
		◊ datblygu parch atynt eu hunain ac at bobl eraill	◊ derbyn cyfrifoldeb personol gan gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach ◊ datblygu agwedd gyfrifol a chydberthnasau personol	◊ ystyried cwestiynau a materion yn cynnwys ystyr a phwrpas bywyd		◊ bod yn gyfrifol yn bersonol am newid eu dull eu hunain o fyw fel ymateb i faterion lleol a byd-eang
		A deall y canlynol:				
		◊ pwysigrwydd mynediad at wybodaeth ddiduedd, gan gynnwys y rhyngrwyd, a bod yn barod i herio safbwyntiau a ledaenir yn y cyfryngau ◊ sut i herio enghreifftiau o ragfarn, hiliaeth a stereoteipio mewn modd pendant	◊ y canlyniadau byrdymor a'r canlyniadau hirdymor wrth wneud penderfyniadau am eu hiechyd personol ◊ canlyniadau personol, cymdeithasol a chyfreithiol defnyddio sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon ◊ y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a'r ffyrdd y gellir meithrin lles emosiynol ◊ y mudiadau statudol a gwirfoddol sy'n hybu iechyd a lles emosiynol ◊ sut i gael mynediad i gymorth personol a chyngor proffesiynol ynghylch iechyd yn hyderus	◊ sut y mae credoau a gwerthoedd yn effeithio ar ffordd o fyw a hunaniaeth bersonol ◊ y ffactorau sy'n ymwneud â llunio barn foesol ◊ yr ystod o werthoedd ac egwyddorion sy'n bywydau pobl		

Atodiad 2 Siart Llif Rheoli Camddefnyddio Sylweddau

Unigolion a enwyd sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau camddefnyddio sylweddau

Diogelwch, Diogelu a Throseddau

1. Y flaenoriaeth ddi-oed yw diogelwch y disgyblion a chymuned yr ysgol gyfan.
2. Os bydd unrhyw un i weld yn sâl neu'n anniogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau, dilynwch y gweithdrefnau cymorth cyntaf.
3. Os oes amheuaeth fod disgybl wedi dioddef, neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, dilynwch y gweithdrefnau diogelu.
4. Lle caiff gweithgarwch troseddol ei ddatgelu neu ei amau, rhowch wybod i Swyddog Cymuned Heddlu Ysgol.

Rhifau Cyswllt Defnyddiol

Swyddog Lles Addysg
Nodwch Enw
Nodwch rhif

Rheoli Gwastraff
Er mwyn casglu offer miniog o flychau melyn
01766 771000

Dan 24/7
Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol
0808 808 2234
www.dan247.org.uk

Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu
Nodwch Enw
Nodwch rhif

Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc:
01248 718030

Safonau Masnach
Arfon -01766 771000, Dwyfor - 01758 613131
Meirionnydd - 01341 422 341
safmas@gwynedd.gov.uk

Nyrs yr Ysgol
Nodwch Enw
Nodwch rhif

Dim Smygu Cymru
Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu 0800 085 2219
www.stopsmokingwales.com

Chwilio

1. Ni all staff yr ysgol gynnal chwiliadau personol o ddisgyblion neu oedolion, eu dillad neu eu heiddo personol heb ganiatâd.
2. Gall y staff chwilio drwy eiddo'r ysgol e.e. desgiau, cypyrddau clo, ond dylid cael caniatâd ymlaen llaw. Gellir cynnal chwiliadau hyd yn oed os gwrthodir caniatâd.
3. Gallai staff yr ysgol ofyn i rywun droi eu pocedi allan, gwagio bagiau etc. Os bydd yr ymdrechion i berswadio rhywun sydd dan amheuaeth o gamddefnyddio sylweddau i ufuddhau i'r cais hwn yn methu, gall yr ysgol wneud un neu ddau o'r canlynol: yn achos disgybl, cysylltu â rhiant/gofalwr a gofyn iddynt ddod i'r ysgol a chwilio'r disgybl a'i eiddo; NEU fwrw ymlaen ar hyd llinellau ffurfiol a chysylltu â Swyddog Cymuned Heddlu Ysgol.
4. Ni all y staff gadw disgybl neu oedolyn heb eu caniatâd at ddiben chwilio.
5. Bydd angen i'r ysgolion bwyso a mesur y tebygolrwydd fod trosedd wedi'i gyflawni yn erbyn y risg o dorri preifatrwydd yr unigolyn heb achos cyfiawn.

Gwaredu ar sylwedd a gymerwyd

1. Sicrhewch fod aelod arall o staff yn cadarnhau eich bod chi wedi cymryd y sylwedd oddi ar rywun.
2. Rhowch y sylwedd mewn bag.
3. Ni ddylai'r staff geisio dadansoddi na blasu unrhyw sylweddau heb eu hadnabod dan unrhyw amgylchiadau
   - Alcohol a diod egniol – gellir ei dywallt i ffwrdd a chael gwared ar y cynhwysydd (hysbysu rhieni/gofalwyr a ddymunai casglu'r eitem).
   - Tybaco – gellir ei ddinistrio a'i waredu (hysbysu rhieni/gofalwyr a ddymunai casglu'r eitem).
   - E-sigaréts – gellir eu dinistrio a'u gwaredu (hysbysu rhieni/gofalwyr a ddymunai casglu'r eitem).
4. Ar gyfer amheuon o gyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau newydd sy'n dod i'r amlwg, sylweddau anweddol – bydd y sylweddau'n cael eu storio mewn lleoliad addas (mewn coffor yn ddelfrydol) ym mhresenoldeb tyst. Bydd Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu'n cael ei gysylltu er mwyn gwaredu arnynt a rhoi cyngor ar gamau i'r dyfodol. Os nad yw Swyddog Cymuned Heddlu Ysgol ar gael – cysylltir â'r orsaf heddlu lleol.
5. Bydd ffurflen ddigwyddiadau yn cael ei llenwi gan gynnwys llofnodion tystion.
6. Addysgir y disgyblion wrth ystyried y materion mewn sylw.

Y Cyfryngau

1. Ni fydd digwyddiadau ac/neu faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau'n cael eu hadrodd i'r wasg a'r cyfryngau lleol.
2. Bydd y Pennaeth, trwy ymgynghori â Swyddfa'r Wasg sirol a'r Llywodraethwyr yn delio'n bersonol â holl faterion y Cyfryngau.

Yr Heddlu

1. Cynnwys Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu ac nid yr heddlu mewn argyfwng ar gyfer POB digwyddiad camddefnyddio sylweddau.
2. Os nad ydynt ar gael a bod y sefyllfa'n argyfwng, gallai fod angen ffonio 999 am ymateb cynt. Er enghraifft, pan fydd rhiant/gofalwr ar fin gyrru eu plentyn adref ac amheuir nad ydynt mewn cyflwr i wneud hynny yn sgil meddwdod neu os ydy'r digwyddiad yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon.

Digwyddiadau camddefnyddio sylweddau sy'n cynnwys disgyblion

Cyfeiriwch at y Weithdrefn Chwilio

Gweler hefyd y nodiadau mewn perthynas â chamddefnyddio toddyddion

Defnydd neu amheuaeth o ddefnyddio, meddu neu gyflenwi sylwedd

1. Rhowch wybod i'r arweinydd.
2. Os ydy disgybl yn feddw, bydd y swyddog cymorth cyntaf yn rhoi triniaeth fel y bo'n briodol ac yn ceisio cymorth meddygol (os oes angen).
3. Tynnwch y disgyblion eraill o'r sefyllfa NEU ewch â'r disgybl dan sylw i ystafell breifat i'w oruchwylio gan ddau aelod o staff.
4. Os bydd y disgybl ym meddiant sylwedd, gwahanwch ef wrth y disgybl os ydy hi'n ddiogel i wneud hynny. Dilynwch y weithdrefn chwilio. Os eir â'r disgybl i'r ysbyty, rhowch y sylwedd i staff yr ysbyty.
5. Cysylltwch â'r rhieni/gofalwyr i gasglu'r disgybl. Os nad ydynt ar gael neu'n gwrthod casglu'r disgybl, rheolwch y digwyddiad yn unol â chyfarwyddyd meddygol, amddiffyn plant ac ynysu (a reolir yn ôl disgresiwn yr ysgol).
6. Bydd dau aelod o staff yn aros gyda'r disgybl hyd nes i'r rhiant/gofalwr gyrraedd.
7. Cysylltwch â Swyddog Cymuned Heddlu Ysgol NEU'R Heddlu os nad ydynt ar gael.
8. Gwnewch ymchwiliadau a chyfweliadau.
9. Gwaredwch ar sylwedd a gymerwyd neu rhowch ef i'r heddlu er mwyn gwneud ymchwiliadau pellach (dilynwch y weithdrefn gwaredu ar sylwedd a gymerwyd).
10. Cynhaliwch addysg gyda disgyblion eraill os oes angen.
11. Llenwch ffurflen rhoi gwybod am ddigwyddiad.
12. Rhowch gosb i'r disgybl.
13. Atgyfeiriwch at y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc.
14. Rhowch wybod i'r ALl a'r llywodraethwyr os oes angen.

Datgelu camddefnydd o sylweddau

Os bydd disgybl yn datgelu eu bod yn camddefnyddio sylwedd NEU os bydd disgybl yn datgelu bod camddefnydd sylweddau rhywun arall yn effeithio arnynt:

1. Rhowch wybod i'r arweinydd.
2. Ystyriwch wirionedd yr adroddiad yn ogystal â materion cyfrinachedd, y sylweddau sydd ynghlwm – swm, statws cyfreithiol, risg, oedran y disgybl, cymhelliad, lefel y defnydd, hen gofnod, amgylchiadau personol diweddar etc.
3. Trafodwch gyda'r disgybl.
4. Trafodwch y mater gyda'r rhiant/gofalwr gan roi blaenoriaeth i ddiogelu a diogelwch y disgybl a diwallu anghenion lles.

Gwybodaeth er Diogelwch - Toddyddion

RHAID i doddyddion gael eu hystyried yn flaenoriaeth a RHAID cyflwyno atgyfeiriad ar yr un diwrnod â'r digwyddiad i'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc gyda'r pennawd 'Brys: Defnydd o doddyddion'.

Defnydd o Doddyddion

1. Cysylltwch â'r swyddog cymorth cyntaf dynodedig i aros gyda'r disgybl oherwydd gallai fod angen sylw arno/arni.
2. Os bydd y disgybl dan ddylanwad, dylid ei dynnu o sefyllfa'r brif ffrwd a mynd ag ef/hi i le tawel (nid uned gynhwysiant/ystafell dawel gan nad cosb yw hwn).
3. Rhowch ddŵr i'r disgybl ei yfed a siaradwch yn bwyllog ac yn dawel gydag ef/hi.
4. Ceisiwch gadarnhau pa doddydd a ddefnyddiwyd, faint a phryd.
5. Os bydd y disgybl yn cael trafferth anadlu, yn cael calon-guriadau gyda chur pen/meigryn, yn llwyd ac yn siarad yn aneglur neu'n ymddwyn yn anarferol ac mewn perygl, gofynnwch am sylw meddygol h.y. ambiwlans
6. Os bydd y disgybl yn llewygu neu'n mynd yn anymwybodol, rhowch ef/hi yn yr ystum adfer a ffoniwch 999 gan ddatgan y sefyllfa a beth a gymerwyd.

Datgelu camddefnydd o doddyddion

1. Os na fydd disgybl dan ddylanwad ond ei fod wedi datgelu defnydd; ewch â nhw i fan mwy cyfrinachol a gofynnwch iddynt drafod amledd a lefel y defnydd.
2. Archwiliwch yn bwyllog eu rhesymau am ddefnyddio ac awgrymwch gyfarfod gydag un o'r gweithwyr o'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc – esboniwch i'r disgybl beryglon defnyddio toddyddion h.y. marwolaeth syth (heb roi gormod o ofn) a bod angen iddynt siarad â gweithiwr arbenigol am hyn.

Digwyddiadau camddefnyddio sylweddau sy'n cynnwys staff

1. Rhoi gwybod i'r arweinydd.
2. Os yn feddw, gofynnwch i'r swyddog cymorth cyntaf roi triniaeth fel y bo'n briodol. Ceisiwch gymorth meddygol os oes angen.
3. Os yn feddw neu ym meddiant cyffuriau neu alcohol, gwahanwch yr aelod o staff oddi wrth y disgyblion i sicrhau eu diogelwch.
4. Gweithio i bolisi Alcohol a Chyffuriau'r ysgol
5. Cofnodwch ddigwyddiadau.

Darganfod offer cyffuriau ar dir yr ysgol

1. Rhowch wybod i'r arweinydd.
2. Rhowch yr offer mewn blwch offer miniog, gan ddefnyddio menig a phlicwyr
3. Cysylltwch â'r Gwasanaethau Amgylcheddol ar **01766 771000** i wagio'r blwch.
4. Rhowch wybod i Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu os oes angen.
5. Cofnodwch ddigwyddiad.
6. Atgyfnerthwch negeseuon addysgol priodol gyda'r disgyblion os oes angen

Digwyddiadau camddefnyddio sylweddau lle ceir amheuon am gyflenwi yn y gymuned leol neu bryderon am nwyddau ffug

1. Rhowch wybod i'r arweinydd.
2. Cysylltwch â Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu.
   Cysylltwch â **Safonau Masnach Arfon** -01766 771000, Dwyfor - 01758 613131
   Meirionnydd - 01341 422 341
3. Safonau Masnach ar 01824 706057 os credir bod alcohol neu dybaco ffug yn y cwestiwn
4. Cofnodwch ddigwyddiad.

Digwyddiadau camddefnyddio sylweddau sy'n cynnwys oedolion eraill

1. Rhowch wybod i'r arweinydd.
2. Peidiwch â rhyddhau'r disgybl i ofal y rhiant/gofalwr os ydy'r rhiant/gofalwr yn feddw ac yn bwriadu gyrru; cysylltwch â'r cysylltiadau eraill a enwyd i gasglu'r disgybl yn hytrach na'r rhiant/gofalwr. Os bydd y rhiant/gofalwr yn mynd yn ymosodol, ffoniwch 999.
3. Dilynwch weithdrefn diogelu'r ysgol os yn briodol os ydy'r rhiant/gofalwr yn feddw.
4. Os gwneir honiadau heb eu cadarnhau o ran meddiant, defnydd neu gyflenwi, casglwch dystiolaeth a monitrwch y sefyllfa, cysylltwch â'r Swyddog Lles Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a chysylltwch â Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu os oes amheuaeth o gyffuriau anghyfreithlon neu ymddygiad troseddol neu 999 os ydy'r rhiant/gofalwr yn ymosodol.
5. Cofnodwch ddigwyddiadau.

Darganfod Sylweddau ar Dir yr Ysgol

1. Rhowch wybod i'r arweinydd.
2. Sicrhewch fod aelod arall o'r staff yn cadarnhau eich bod chi wedi cymryd y sylwedd oddi ar rywun.
3. Ewch â'r sylwedd a'i roi mewn bag.
4. Peidiwch â cheisio dadansoddi na blasu unrhyw sylwedd heb ei adnabod dan unrhyw amgylchiadau.
   - Alcohol ac diodydd egniol – gellir ei dywallt i ffwrdd a chael gwared ar y cynhwysydd.
   - Tybaco – gellir ei ddinistrio a'i waredu
   - E-sigaréts – gellir eu dinistrio a'u gwaredu
   - Ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon dan amheuaeth, cyffuriau newydd sy'n dod i'r amlwg, sylweddau anweddol – storiwch y sylwedd mewn lleoliad addas (mewn coffor yn ddelfrydol) ym mhresenoldeb tyst. Cysylltwch â Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu er mwyn ei waredu ac i gael cyngor ar gamau i'r dyfodol. Os nad yw Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu ar gael, cysylltwch â'r orsaf heddlu leol. Esboniwch y sefyllfa a gofynnwch am rif digwyddiad.
5. Cofnodwch ddigwyddiad, gan esbonio sut gwaredwyd ar y sylwedd a chynnwys llofnodion gan dystion
6. Atgyfnerthwch negeseuon addysgol priodol gyda'r disgyblion os oes angen.